

Cofnodion Cyfarfod 4ydd Fai 2021 Cyfarfod Blynyddol a Chyfarfod misol i ddilyn.

Presennol :- Y Cadeirydd **Gareth Griffiths** a'r Cynghorwyr, Elfed Wyn Williams, Phyllis Ellis, Jane Pierce, R. Hefin Williams, Rhian Evans-Hill, Richard Llwyd Jones, ac Emma Chappell.

Ymddiheuriadau.

Idris Thomas, Lowri Hughes a Ceri Angharad Jones

Croeso

Yn dilyn trafferthion cysylltu ynghynt i gyfarfod o'r Is bwyllgor Meysydd Chwarae, nodwyd y buasai 'r cyfarfod bellach yn cael ei drefnu cyn cyfarfod Mis Mehefin o'r Cyngor, er mwyn bwrw mlaen a Chyfarfod Blynyddol heno Rhoddwyd gair o groeso i bawb gan y Cadeirydd a rhoddwyd gair o weddi gan Richard Ll. Jones.

Cadeirydd am y Flwyddyn 2021 - 2022

Dywedodd Gareth Griffiths ei fod bellach wedi cyflawni 2 flynedd yn Y Gadair, ac felly, ond yn deg ei fod ei dymor yn dod i ben. Felly, yn draddodiadol, mae'r Is Gadeirydd yn camu blaen i'r Gadair. Dywedodd Emma Chappell, yr Is Gadeirydd y buasai yn fodlon Cadeirio, ond oherwydd ymrwymedigaeth i'w gwaith yn methu bod yn bresennol tan 7:15pm. Penderfynwyd symud amser cychwyn ein cyfarfodydd i 7:15, a phenodi Emma Chappell yn Gadeirydd.

Richard Ll. Jones (1)

R Hefin Williams (2)

Diolchodd Emma am y ffrind, ond gan ei bod wedi dod i'r cyfarfod ar frys, gofynnodd i Gareth Griffiths barhau fel Cadeirydd am heno.

Cytunodd Pawb yn Unfyddol.

Diolchwyd i Gareth am ei arweiniad a'i ymateb trefnus dros gyfnod anodd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Gyda Gareth Wyn Griffiths yn y Gadair,

Ethol Is-gadeirydd am y Flwyddyn 2020 - 2021

Cynigiwyd, a derbyniwyd Jane Pierce fel Is gadeirydd eleni

Elfed Wyn Williams (1)

Gareth W Griffiths (2)

Ethol swyddogion sydd yn gyfrifol o swyddogaeth y Clerc

Cytunwyd fod y 3 presennol yn parhau i fod yn gyfrifol am swyddogaeth y Clerc sef: Phyllis Ellis, Richard Ll. Jones a Rhian Evans-Hill

Iystyried creu ac ethol swyddogion Pwyllgor Llwybrau Cyhoeddus

Rydym eisoes wedi penderfynu canolbwyntio a rhoi trefn ar ein llwybrau cyhoeddus. Wrth gychwyn ar bwyllgor o'r fath, mae yn rhoi 5 mlynedd i ni fel Cyngor edrych a gweithredu ar y llwybrau, a sicrhau fod y mapiau llwybrau yn gywir, ac yn rhoi amser i ni edrych ar y rhestr llwybrau rydym yn gofalu amdanynt ar hyn o bryd.

Ffurfiwyd a phenodwyd **Phyllis Ellis, R. Hefin Williams, Ceri Angharad Jones, Richard Ll. Jones ac Emma Chappell, Idris Thomas** ar yr is bwyllgor yma.

Aelodau ar Barciau a Meysydd Chwarae

Mae'r Cyngor eisoes wedi sefydlu'r pwyllgor yma llynedd. Mae'r aelodau presennol sef: **Lowri Hughes, Elfed Wyn Williams, Phyllis Ellis, Rhian Evans-Hill a Gareth Griffiths** yn fodlon parhau ar yr is-bwyllgor.

I greu Unrhyw bwyllgor arall yn ôl doethineb Y Cyngor, ac i ethol swyddogion i'r pwyllgorau, os yn briodol.

Penderfynwyd fod ddigon hyblyg yn y dyfodol lle os bydd angen neu os bydd achos yn codi yna bydd ddigon rhwydd ethol swyddogion y pryd hynny.

I ethol cynrychiolydd ar Lywodraethwyr :

Mae'r swyddogion presennol yn fodlon aros nes daw eu tymor i ben.

Ysgol Gynradd Gwaun Gynfi - Lowri Hughes

Ysgol Gynradd Penisa'r-waun - Phyllis Ellis

Ysgol Gynradd Bethel - Richard LL. Jones

Ysgol Gynradd Rhiwlas - Y Pennaeth byth wedi cadarnhau'r angen yn dilyn sawl

llythyr ers 2 flynedd. Mae'r Cyngor felly yn cymryd nad oes sedd ar Lywodraethwyr

Ysgol Rhiwlas i aelod o'r Cyngor Cymuned

I ethol cynrychiolwyr i fynychu cyfarfodydd Un Llais Cymru

Cytunodd Rhian Evans-Hill i barhau i gynrychioli'r Cyngor eleni. Bydd y clerch yn cysylltu ag Un Llais er mwyn gyrru manylion cysylltiad Rhian.

Dyna ddiwedd Y Cyfarfod Blynyddol am eleni. Diolchwyd i bawb am ymrwymo i'w gwaith, ac am ffurfio is-bwyllgorau yn rhwydd.

Aethpwyd ymlaen i gyfarfod arferol - mis Mai

Ymddiheuriad a Llythyr gan Lowri

Derbyniwyd a darllenwyd llythyr gan Lowri yn datgan oherwydd amgylchiadau personol nad yw mewn sefyllfa i ymrwymo a chymryd dyletswyddau tu hwnt i'r cartref ar hyn o bryd, a gyda chais i gymryd saib o ddyletswyddau'r Cyngor ar hyn o bryd. Wrth gwrs, mae rheolau yn caniatáu i'r Cyngor rhoi saib am 6 mis, a chytunwyd yn unfrydol i hyn. Rydym yn anfon ein cofion at Lowri, gan obeithio bydd y sefyllfa yn gwella yn fuan.

Cofnodion Cyfarfod 6ed Ebrill 2021

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir

R Hefin Williams (1)

Elfed Wyn Williams (2)

Materion o'r cofnodion

Pileri Llechi - derbyniwyd llythyr yn diolch am ein cefnogaeth i'r frwydr i'w cadw.

Hysbysfyrddau - Mae Rhian Elin George yn gwneud ymchwil i weld os oes angen cais cynllunio ayyb.

Gohebiaethau a Materion Eraill

Adra - Cafwyd wybod mai Cyngor Sir oedd yn torri gwair fel arfer i adra, ond yn ddiweddar mae yn ymddangos efallai fod cwmni, neu weithwyr o Lerpwl yn torri'r gwair. Y clerch i gysylltu ag Adra.

Yswiriant Y Cyngor - Cafwyd llythyr yn datgan pris yswiriant eleni. Yn dilyn adolygu'r polisi llynedd, cytunwyd fod y pris yn iawn.

National Grid - Rhoddwyd gwahoddiad i'r Cyngor gael briff ar brosiect ceblau tanddaearol o Dinorwig I Bentir. Cytunwyd fod y cynllun yn newid ac nid ydynt dal yn sicr o'r llwybr. Penderfynwyd gyrru llythyr o ddiolch.

Cynllunio

C21/0352/18/LI, 1 Tan y Bryn, Bethel - Estyniad deulawr ar y talcen, ynghyd a chreu llecyn parcio. Dim Gwrthwynebiad

C21/0239/18/DT, 38 Bro Eglwys, Bethel - Estyniad un llawr ar y talcen. Dim Gwrthwynebiad
Perthyn, Y Bedol, Bethel - Trwydded Eiddo. Dim Gwrthwynebiad

Llwybrau

Llwybr o Fethel I gyfeiriad Fferm Y Bush trwy Fuarth Bodandreg

Mae sawl un wedi cael eu rhwystro gan ddyn ar y buarth yma, gan dynnu sylw fod y llwybr wedi ei ddargyfeirio, a bod yn rhaid troi yn ôl. Yn dilyn cysylltu gyda Chyngor Sir, cafwyd cadarnhad nad oes unrhyw lwybr wedi ei ddargyfeirio yno. Mae holl llwybrau cyhoeddus oddi fewn ardal Bodandreg wedi ei harwyddo a disc cefndir gwyrdd a saeth felen yn dynodi llinell y llwybr.

Llwybr i'r chwith lon capel cefn y Waun am Rhwng y Ddwryd. Mae'r arwydd llwybr cyhoedda a'r polyn yn gorwedd ar lawr ac angen ei roi i fyny yn ôl.

Llwybrau gyda diffygion wedi tynnu i sylw Cyngor Gwynedd yn disgwyl adroddiad yn ôl

Giât Mochyn, Carreg y Gath

Llwybr rhwng Tŷ Mawr a Hafod y Fraich, Deiniolen

Cae Goronwy

Llwybr 16 Rhiw Goch, Clwt Bont I Frynrefail

Tros y Waun I Dros y Waun Fach rhif 61, 61A, 63 a 64

Llwybr I Gegin Arthur

Llwybr Sinc - Tarmac yn waelod

Llwybr cefn yr Eglwys - Giât Mochyn, nid oes arwydd yno yn dweud llwybr cyhoeddus.

Credu mai rhif 92 ydi'r llwybr.

Cwmni Till Hill - Byth wedi clirio'r coed sydd wedi eu torri ar lwybr tuag at Gegin Arthur na chwaith yn y cae ger Ynys Iago

Cyfarfod Llwybrau cyd Cyngor Gwynedd

Cadarnhawyd mai ar Nos Fawrth 18fed o Fai bydd y Cyfarfod yma.

Seddi Gwag

Mae new wedi dod ymlaen am sedd yn Neiniolen. Mae dal angen 1 yn Glwt y Bont, Penisa'r-waun a Bethel. Os oes rhywun gyda diddordeb o ymuno yng ngwaith Y Cyngor Cymuned, mae mwy o wybodaeth i gael gan y clerch.

O gwmpas y Bwrdd

Arwydd Penisa'r-waun wedi diflannu o ochr Clwt y Bont.

Amserlen Bws Bethel - Dim digon o amser i wneud siopa a dal bws yn ôl ac oes posib

cael bws i fynd I Morrissons yn Dre fel mae Bws yn mynd I Tesco ym Mangor.

Rheolaeth adran Gynllunio - Mae yna ddiffyg rheolaeth yma. Sawl peth sydd angen rhoi pwysau ar adran gorfodaeth cynllunio. Y clerch i ofyn am ymatebion, ac am gopi o'u bolisi cwynion.

Ffordd o Dan y Buarth I Glan Gors, Bethel - Gôr ddefnydd gan loriau trwm. Mae yna arwydd yno ond mae 1 lori wedi hitio wal yr ardd, sydd gyda pheipen nwy ynddi. Yna 1 lori wedi mynd i mewn i'r ffos.

Parc Cenedlaethol - Cefnogol I ddefnydd **'Yr Wyddfa'** fel new swyddogol

Lon top Deiniolen heibio Parc I Dinorwig - Mae'r Lôn gyda thyllau mawr ynddi ac yn beryg ofnadwy. Y clerch i gysylltu â phrifyrdd.

Cadarnhau Taliadau:

541 - £ 386.16

542 - £ 612.26

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar y 1af o Fehefin.